# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 9

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Cyffredinol*

### 145 Cychwyn

(1) Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn derbyn Cydsyniad Brenhinol—

- (a) adran 142;
- (b) adran 143;
- (c) yr adran hon;
- (d) adran 146.

(2) Bydd adrannau 132 i 136 yn Rhan 5 (Cyllid Tai) yn dod i rym ar ôl diwedd y cyfnod o 2 fis gan ddechrau gyda'r diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

(3) Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(4) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon—

- (a) pennu gwahanol ddyddiau at wahanol ddibenion;
- (b) cynnwys y gyfryw ddarpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.